Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Coedwigoedd Bannau Brycheiniog
Brecon Beacons Forests


# Coed **Pen Arthur** Wood

## Croes i Coed Pen Arthur
### ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Mae'r coetir 225-hectar (556 erw) hwn wedi'i leoli ar ymyl gorllewinol y Parc Cenedlaethol. Mae'r coetir hwn yn gymysgedd deniadol o gonifferau a choed llydanddail brodorol.

## Welcome to Coed Pen Arthur
### in the Brecon Beacons National Park

This 225-hectare (556 acres) forest lies on the western edge of the National Park. This woodland is made up of an attractive mix of conifers and native broadleaved trees.




Atgynhyrchir y map hwn o ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi. © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2019 Arolwg Ordnans 100019741.
This map is based upon Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the controller of Her Majesty's Stationery Office © Crown copyright and database rights 2019 Ordnance Survey 100019741.

www.cyfoethnaturiol.cymru
www.naturalresources.wales
0300 065 3000

## Coedwigoedd sy'n gweddu'r parc

Rydym yn gofalu am y goedwig hon ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae hyn yn golygu:

- dewis amrediad ehangach o goed
- ystyried y mathau o bridd
- gwella'r dirwedd
- addasu i hinsawdd sy'n newid
- cynllunio sut y bydd coed a choetiroedd y dyfodol yn edrych

Rydym eisiau gweld ein coedwigoedd yn:

- dal i gynhyrchu pren ar gyfer economi Cymru
- cynnig cyfleoedd hamdden ichi megis cerdded, seiclo ac ymlacio
- gwella ansawdd dŵr
- cloi carbon
- bod o fudd i fywyd gwyllt

Rydym hefyd yn lliniaru'r cyrion rhwng y goedwig a'r rhostir agored fel bo'r dirwedd yn edrych yn fwy naturiol.

Yn gyffredinol, rydym yn dymuno gweld ein coedwig mewn cytgord â thirwedd y parc cenedlaethol ehangach, nawr ac mewn blynyddoedd i ddod.

## Forest fit for the park

We are looking after this forest for future generations. This means:


- choosing a wider range of trees
- considering soil types
- enhancing the landscape
- adapting to a changing climate
- planning how future trees and woodlands will look

We want our forests to:

- keep producing timber for the welsh economy
- offer you recreational opportunities like walking, cycling and relaxation
- improve water quality
- lock carbon
- benefit wildlife

We are also softening the edges between the forest and open moorland to create a more natural appearance in the landscape.

Overall, we want our forests to be in harmony with the wider national park landscape, now and in future years to come.




## Beth allwch ei wneud o'r fan hon

O'r fan hon gallwch ddilyn y llwybr o'ch blaen i ymuno â ffyrdd y goedwig yr holl ffordd i fyny (3.2km/2 filltir un ffordd gyda dringfa o 270m/900troedfedd, yn ogystal â chylch bychan o 400m o ben draw'r ffordd – caniatewch 3 awr) at lecyn gwylio trawiadol gyda chylch bychan drwy rostir. Ar un ochr ceir golygfeydd gwych o Ddyffryn Tywi, ac ar yr ochr arall o'r Mynydd Du.

### Cylch daith Garn Goch ○ ○ ○ ○ ○ ○ ○

Mae **Ffordd y Bannau** yn llwybr 99m/159km o hyd drwy Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Gall darllenwyr mapiau da gerdded rhan o ran fwyaf gorllewinol y llwybr hwn drwy gychwyn ar y llwybr cyhoeddus sy'n rhedeg drwy'r goedwig ym Manc Carreg-foel-gam i'r gogledd gan ddilyn ffyrdd tramwy cyhoeddus at Garn Goch a dychwelyd ar yr is-ffordd i'r dwyrain o Fethlehem. Mae'r daith gerdded hon yn 13km/8m, heb farciau ffordd, I gerddwyr profiadol yn unig ac nid yw ar dir Cyfoeth Naturiol Cymru unwaith byddwch wedi gadael y goedwig.

## What you can do from here

From here you can follow the path ahead to join forest roads all the way up (3.2km/2 miles one way with 270m/900ft climb, plus 400m mini-circuit from end of road – allow 3 hours) to a spectacular viewpoint with a mini-circuit through moorland. On one side there are great views of the Tywi Valley, and on the other views of Black Mountain.

### Garn Goch circular ○ ○ ○ ○ ○ ○ ○

The **Beacons Way** is a 99m/159km long distance route through the Brecon Beacons National Park. Good map-readers can walk a section of the western-most section of this trail by picking up the public footpath that runs through the forest at Bane-Carreg-foel-gam northwards following public rights of way to Garn Goch and returning on the minor road to the east of Bethlehem. This walk is 13km/8m, not waymarked, for experienced walkers only and not on Natural Resources Wales land once you leave the forest.

## Llwybr Llecyn gwylio Banc Carreg-foel-gam
## Banc Carreg-foel-gam Viewpoint route

llwybr awgrymwyd
suggested route ● ● ● ● ● ● ●

**Anodd | Strenuous**

Pellter | Distance: 4½m | 7.2km
Amser | Time: 3 awr | hours
Dringfa | Climb: 270m | 900 tr/ft

**Uchafbwyntiau: Golygfeydd gwych ar ddiwrnod clir o'r Mynydd Du a Dyffryn Tywi yw'ch gwobr am ddringo'n hir i ben Banc Carreg-foel-gam (350m/1150 troedfedd uwchben lefel y môr).**

A yw'r daith hon yn iawn i chi? Mae'r daith i fyny'r rhiw bob cam at y llecyn gwylio ac felly mae angen lefel ffitrwydd uchel. Mae'r cylch bychan ar y brig yn gallu bod yn wlyb ac felly argymhellwn esgidiau cerdded ar gyfer y daith hon, sydd heb farciau ffordd.

**Highlights: Great views on a clear day of the Black Mountain and the Tywi Valley are your reward for a long climb up to Banc Carreg-foel-gam (350m/1150ft above sea level).**

is this walk right for you? This walk is uphill all the way to the viewpoint so a high level of fitness is needed. The mini-circuit at the top can be wet so we recommend walking boots for this route, which is not waymarked.

parcio / parking
gwybodaeth / information
castell / castle
gorsaf fysiau / bus station
Dŵr Cymru / Welsh Water
golygfan / viewpoint
llwybrau eraill gyda mynediad i'r cyhoedd / other routes with public access
Ffin Parc Cenedlaethol / National Park Boundary
ffin Geoparc / Geopark boundary
Ffordd y Bannau / Beacons Way
llwybr cyhoeddus / public footpath
llwybr marchogaeth / bridleway
llwybrau cerdded / walking trails

## BANNAU BRYCHEINIOG
EIN PARC CENEDLAETHOL
## BRECON BEACONS
OUR NATIONAL PARK

**Croeso i Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog – ardal sy'n orlawn o antur, natur, golygfeydd diguro a chymunedau amrywiol.**

Gyda'r nos mae hi'n tywyllu gymaint yma fe gydnabyddir y Bannau Brycheiniog yn Warchodfa Awyr Dywyll Ryngwladol. Mae'n gartref hefyd i Geoparc Byd-eang UNESCO y Fforest Fawr sy'n dathlu cyfoeth treftadaeth naturiol a diwylliannol y fro.

**Welcome to Brecon Beacons National Park – an area brimming with adventure, nature, breath-taking scenery and varied communities.**

At night it gets so dark here that the Brecon Beacons is recognised as an International Dark Sky Reserve. It is also home to the Fforest Fawr UNESCO Global Geopark, celebrated world-wide for its rich natural and cultural heritage.

www.breconbeacons.org

Brecon Beacons
DARK SKY RESERVE
GWARCHODFA AWYR DYWYLL
Bannau Brycheiniog

www.breconbeacons.org/stargazing

FFOREST FAWR GEOPARK

Cymdeithas Cenhedloedd Unedig Addysg Gwyddoniaeth a Diwylliant
United Nations Educational, Scientific and Cultural Organization

Fforest Fawr Geoparc UNESCO byd-eang
Fforest Fawr UNESCO Global Geopark

www.geoparcyfforestfawr.org.uk
www.fforestfawrgeopark.org.uk

MENTRO'N GALLCYMRU
ADVENTURE SMARTWALES
www.adventuresmartwales.com

Noddir gan **Lywodraeth Cymru**
Sponsored by **Welsh Government**